Y Mewnlifiad yn ei ôl

Ddeng mlynedd yn ôl roedd pryder bod prisiau tai'n codi ac yn mynd allan o gyrraedd pobol leol. Heddiw, mae'n edrych yn debyg iawn ein bod ni mewn sefyllfa debyg.

Mae eiddo — tai a busnesau — fu ar werth am gyfnod hir flwyddyn a mwy yn ôl heb i neb ddangos diddordeb ynddyn nhw, bellach yn gwerthu o fewn wythnosau i gyrraedd y farchnad. Clywyd am un gwerthwr tai yn cael ymholiadau dros y ffôn yn holi a oedd ganddo eiddo ar werth yn Abersoch ac yn gorfod dweud nad oedd ganddo ddim ar ôl heb ei werthu. Clywyd yn ddiweddar hefyd am lain o dir yng ngolwg y môr â hawl cynllunio ar gyfer un tŷ arno, eto yn Abersoch, yn gwerthu am yn agos i chwarter miliwn.

Un arwydd o faint y mewnlifiad i'r ardal yw pa mor brysur yw'r Uned Arbennig i Ddysgwyr sydd yn Ysgol Llangybi. Pan ddaw plant sy'n ddi-Gymraeg i ysgolion ardal Dwyfor, gall penaethiaid yr ysgolion eu cyfeirio i'r uned am dymor er mwyn cael cwrs carlam i ddysgu'r Gymraeg. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r uned wedi bod yn brysur, ond yn anaml yn llawn. Ers Medi llynedd fodd bynnag, mae wedi bod yn llawn ac mae rhestr aros ar gyfer y tymor nesaf.

Mae'r Cynghorydd Seimon Glyn, sy'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Tai Cyngor Gwynedd yn bryderus am y sefyllfa.

'Mae'r mewnlifiad yn ei ôl yn sicr,' meddai. 'Mae o'n llifo yn hytrach na diferu y dyddia' yma, ac mae hynny'n saff o gael effaith ar brisiau tai. Fel arfer mae prisiau tai yn adlewyrchu cyflwr yr economi leol, ond yma, er bod yr economi gyda'r gwana' mae'r ardal ymhlith y pump uchaf yng Nghymru o ran prisiau tai. Mae mwy o dai ar werth na sydd eu hangen yn lleol.'

Mae Seimon Glyn yn gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y sefyllfa o eleni ymlaen. Ers dechrau'r flwyddyn, y cynghorau sir yn hytrach na'r cwango Tai Cymru sy'n gyfrifol am lunio strategaeth tai. "Rydw i'n awyddus i weld strategaeth newydd y cyngor yn adlewyrchu'r galw lleol am dai a'n bod ni'n tynhau'r diffiniad o pwy sy'n berson lleol,' meddai.

Gwireddu Breuddwyd

Mrs Elisabeth Robertsgyda naw o'i chyn-ddisgyblion sydd bellach yn aelodau o griw bad achub Porthdinllaen.

Ddiwedd yr wythnos hon bydd Mrs Elisabeth Roberts yn ymddeol ar ôl yn agos i 29 mlynedd fel Prifathrawes Ysgol Morfa Nefyn. Ychydig yn ôl, trefnodd rhieni a chyn-ddisgyblion yr ysgol (mae Mrs Roberts ei hun yn gyn-ddisgybl) ddiwmod i'w gofio iddi. Daeth y cogydd Dudley i'r ysgol i baratoi pryd o fwyd tra'r aeth criw bad achub Porthdinllaen â hi am drip o amgylch y bae. 'Mae'r daith ar y bad achub wedi gwireddu breuddwyd i mi,' meddai. 'Roedd o'n ddiwmod arbennig iawn a rydw i'n ddiolchgar iawn i bawb fu'n trefnu.

Gwobr i'r Llanw

Mae Llanw Llŷn wedi ennill gwobr trwy Gystadleuaeth Cwlwm Llŷn fydd yn ei alluogi i gynhyrchu Blwyddiadur ar gyfer ardal Llŷn. Bydd y blwyddiadur, fydd ar ffurf poster y gellir ei roi ar y wal, yn cael ei ddosbarthu am ddim yn rhifyn mis Ionawr ac yn rhoi sylw i bob digwyddiad lleol yn ystod 200 1. Bydd cyfle i roi sylw i chwaraeon, eisteddfodau, sioeau, gwyliau drama, cyfarfodydd pregethu ac ati yn y blwyddiadur — y cyfan fydd yn rhaid ei wneud fydd gyrru'r manylion i un o ysgrifenyddion y Llanw. Bydd manylion pellach yn rhifyn mis Medi.

Pen Llŷn ar y We

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd safle yn cael ei lansio ar y we ar gyfer pobol Llŷn. Bwriad Seimon Jones, Tŷ Capel Pen-y-graig, Llangwnnadl, sydd wedi ffurfio cwmni **penllŷn.com, yw** cael un safle sy'n cynrychioli'r ardal i gyd.

'Nod y safle,' yn ôl Seimon, 'ydi cael cymaint o bobol a mudiadau at ei gilydd. Mae'n cael ei rhedeg gan bobol leol er mwyn pobol leol ac mae'n agored i bawb. Roeddwn i wedi teimlo ers tipyn nad oedd cyrff fel Y Bwrdd Cmeso a'r Cyngor Sir yn gneud digon yn y cyfeiriad yma, felly rydw i wedi penderfynu ei neud o fy hun.'

Yn barod mae Seimon Jones wedi cysylltu efo'r Cynghorau Cymuned sy wedi bod yn gefnogol i'r syniad. Mae cyfle i bob busnes, mudiad, cymdeithas neu unigolyn sydd â chyfeiriad e-bost neu safle ar y we i roi eu cyfeiriad yn rhad ac am ddim ar gyfeiriadur penllŷn.com. Mae'r cwmni hefyd yn cynnig gwasanaeth darparu safleoedd newydd i'r rhai sy'n bwriadu cael eu safle eu hunain.

0 fis Medi ymlaen, trwy gysylltu â penllŷn.com bydd yn bosibl darllen Ilanw Llŷn ar y we. Bydd tudalennau o'r papur yn cael eu postio ar safle'r Llanw — cewch fwy o fanylion yn rhifyn mis Medi.

Mae'n bosibl i bwy bynnag sydd eisiau mwy o wybodaeth gysylltu â Seimon Jones trwy yrru e-bost i ***seimon @penllyn. corn*** neu drwy ffonio Tudweiliog 770468.

Pwy Fu Yma . . .?

Darlith Flynyddol Llŷn gan Emlyn Richards

Nôl ym mis Tachwedd 1999 traddodwyd Darlith Flynyddol Llŷn yn Ysgol Botwnnog. Dyma ddarlith olaf y ganrif a draddodwyd gan un o hogia Llŷn, sef Emlyn Richards, Cemais. Ceir ynddi hanesion diddorol sefydlu 'Cymdeithas Amaethyddol' yn Llŷn ond, fel y Traction cynta, aeth i'r wal; hanes Dr. Jôs a Jennie Ty'r Ysgol; John Parri'r Cariwr a Ianto Soch y bardd. Mae'r ddarlith bellach wedi'i chyhoeddi ac ar gael yn siop Llên Llŷn, Pwllheli.

Ffarwelio

Fel y gwelwn wrth ddarllen y golofn lythyrau yn y rhifyn hwn y mae dau o hoelion wyth y Llanw, sef Beti Hughes, colofnydd Bwlchtocyn, Cilan a Sam Bach ers rhai blynyddoedd, a Glyn Roberts, colofnydd pryfoclyd Pwllheli, yntau hefyd yn y gwaith ers amser maith, yn gorffen hefyd newyddion.

Gyda chwithdod yr ydym yn ffarwelio â hwy a mawr yw ein diolch am eu cyfraniadau drwy'r blynyddoedd. Ond, wrth ffarwelio, hefyd y mae'n rhaid cael rhywun i sefyll yn y bwlch (chwedl Glyn) a dod i'r adwy i hefyd newyddion i'r Llanw yn y ddwy ardal. Os oes diddordeb, cysylltwch ag Elen Williams (760473) neu Mai Scott (720846).

Hefyd yn rhoi'r gorau iddi y mae Nellie Jones (Anti Nel) a fu yng ngofal 'Tudalen y Plant' am rai blynyddoedd. Diolch yn fawr iddi hithau a phob lwc i Marian Santin sydd wedi cymryd yr awenau.

Pwyllgor Llanw Llŷn

Dyddiadur y Mis

Gorffemaf 14 – Neuadd y Rhiw – Mabolgampau ar gae Ty'n Mynydd am **6.00** o'r gloch, gyda disgo i ddilyn yn y neuadd yng ngofal Glyn Jones. £l i oedolion a 50c i blant.

Gorffennaf 17 – Helfa Drysor ar droed. **Man** cychwyn: Neuadd Llanbedrog am 6.30p.m. Pris £l y tîm (tîm o hyd at 4).

Gorffennaf 19 – Ymrysonfa Cŵn Defaid Sarn a'r Cylch ar gae Trigwm am 2.00.

Gorffennaf 19 – Noson Coroni Heidi, Brenhines Carnifal Llanbedrog, a Chyngerdd gyda Iona ac Andy a thalentau lleol yn Neuadd Llanbedrog – 7.00 p.m. Pris: Oedolion £3, Plant £l.

Gorffennaf 20 – Disgo yn Neuadd Llanbedrog o 7.00 – 9.00. Pris: 5Oc.Bydd lluniaeth ysgafn ar werth.

Gorffennaf 20 – Ymrysonfa Cŵn Defaid Sarn a'r Cylch ar gae Trigwm am 9.00. Beirniad: Mr. Edgar Jones, Llanfairfechan.

Gorffennaf 20 – Treialon Cŵn Defaid Aberdaron a'r Cylch.

Gorffennaf 20 – Clwb y Neuadd, Mynytho – taith gerdded a swper. Ymgynnull ger y neuadd am 6.00 o'r gloch. Trefnir gan Dic Goodman – Ffôn: 740 289 a John Ellis – Ffôn: 740 536.

Gorffennaf 21 – Noson Rhostio Oen a Dawnsio Gwerin ar Fferm Cwrt, Uwchmynydd,am 7.00 o'r gloch. Elw tuag at yr Eglwys Newydd.

Gorffennaf 21 – Cartref y Pwyliaid, Penrhos,- Barbaciw.

Gorffennaf 21 – Neuadd Rhoshirwaun. Cyngerdd Coroni Brenhines y Grug gydag Edward Morris Jones am 7.00.

Gorffennaf 22 – Carnifal Llanbedrog. Man cyfarfod Ship, Llanbedrog, am 1.00. Gorymdeithio drwy'r pentref am 2.00.

Gorffennaf 22 – Sêl Cist Car yn y mart yn Sarn am 1 o'r gloch. Cysyllter â K.M. Jones. Ffôn: 770 663.

Gorffennaf 22 – Neuadd Rhoshirwaun. Carnifal am 2 o'r gloch.

Gorffennaf 26 – Ras Ffordd a Ffridd Pen Draw Llŷn yn cychwyn o Ysgol Crud y Werin am 7.00. Cynhelir Noson Goffi am 7.30.

Gorffennaf 26 – Noson o Bingo yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan am 7.30.

Awst 1 – Ffair Haf gan Gyfeillion Ysgol Llanbedrog – Pentrellan, Llanbedrog. Amser: 1.OO.

Awst 2 – Neuadd Rhoshirwaun – Barbaciw a Dawnsio Gwerin.

Awst 3 – Noson Goffi yn yr Hen Ysgol, Llangwnnadl, am 7 o'r gloch. Elw tuag at gynnal a chadw mynwent Sant Gwynhoedl.

Awst 4 – Noson Goffi yn Ffrainc, Llangian, am 6.30 tuag at Eglwysi Sant Cian a Sant Engan.

Brydeinig, Rhoshirwaun a'r Cylch. Ffôn: (01758) 730 340.

Awst 16-17 – Rali Stem ar gaeau Crugan – stondin yno gan Gyfeillion Ysgol Llanbedrog.

Awst 16 – Cymanfa Bregethu Gyd-Enwadol, Rhoshirwaun,am 2.30 a 6.30.

Awst 17 – Cymanfa Bregethu Gyd-Enwadol Rhoshirwaun am 10, 2 a 6.30 o'r gloch.

Awst 17-19 – Gŵyl Flodau yn Eglwys Sant Gwynhoedl.

Awst 17 – Clwb y Neuadd, Mynytho, – tynnu'r rhifau am 7.30.

Awst 18 – Barbaciw a Dawnsio Gwerin yn Llecyn, Llangwnnadl, am 7 o'r gloch.

Awst 19 – Arddangosfa Blodau a chynnyrch yn neuadd Mynytho am 2.00 o'r gloch, a chyngerdd am 7.30 gyda John Eifion Jones, Siân Wyn Gibson ac R. Davy Jones.

Awst 20 – Cymanfa Ganu yn neuadd Mynytho am 8 o'r gloch. Arweinydd: Mrs. Valerie T. Ellis. Gwneir casgliad tuag at Eisteddfod Gadeiriol Mynytho.

Awst 22 – Ras Wyau yn Aberdaron. Elw tuag at neuadd Rhoshirwaun.

Awst 22 – Sgwrs a sleidiau gan Mrs. M. Griffith ar hanes Beddgelert yn neuadd y Rhiw am 7.30. Oedolion: £2; plant: £l.

Awst 24 – Te Cymreig yng nghegin neuadd Mynytho am 2.00 o'r gloch tuag at 'Age Concern'.

Awst 28 – Sêl Cist Car ar gae Pen Bont Bach, Llangwnnadl, am 10 o'r gloch. Ffôn: (01758) 770 249. Elw tuag at Eglwys Sant Gwynhoedl.

Awst 30 – Noson o Bingo yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan am 7.30.

Medi 1 a 2 – Gŵyl Pen Draw'r Byd gydag Anweledig, Catsgam, Geraint Roberts a'i Fand, Meic Stevens a mwy.

Medi 14 – Cyfarfodydd pregethu Cape1 Horeb(A), Mynytho, am 2.00 a 6.30 o'r gloch, gyda'r Parchedig Derwyn Morris Jones, Abertawe.

Medi 21 – Noson Clwb y Neuadd, Mynytho,a chyfarfod o Bwyllgor y Neuadd am 7.30.

Medi 25 – Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Cian, Llangian, am 7 o'r gloch, gyda'r Parchedig Aled Jones-Williams, Porthmadog.

Hydref 5 - Cyngerdd Mawreddog i ail-agor Neuadd goffa Chwilog am 7.30 gyda Chôr Eifionydd, Washington James, Siân Eirian, Gwenan Gibbard, Huw a Steven. Arweinydd: Bethan Jones Parry, Tocynnau:£4, plant £2. Ffôr: 01766 810257

Hydref 20 – Noson yng nghwmni Hogia'r Bryniau yn neuadd y Rhiw am 7.30.

Ionawr 27 – Noson gyda John ac Alun yn Neuadd Goffa Chwilog. Arweinydd: Dilwyn Morgan. Tocynnau i deulu – 2 oedolyn a 2 o blant £lO.

LLEN Y LLANW Golygydd: Dic Goodman

Daeth teyrnged i Ieuan Wyn A.S. oddiwrth R.J. Penmorfa. Fe1 y gwyddom mae llunio englyn neu gywydd yn beth mor reddfol a hawdd i R.J. ac anadlu am a wn i. Mae'r sôn am olynydd i Ddafydd Wigley wedi creu braw ac anesmwythyd i laweroedd. Ond braf yw cael meddwl fod gennym olynydd teilwng iddo wrth law.

Rwy'n siŵr y bydd R.J. yn fodlon inni ddethol o blith darn o gywydd a phum englyn. Dethol yn ôl ein mympwy yr ydym – mae'r cyfan, fel arfer yn haeddu eu lle, ond fod gofod yn gymharol brin:

Ieuan Wyn Jones, AS.

Ieuan Wyn, dy gynllun gaf
o fudd, a disgwyl fyddaf
ei weled yn bodoli
i daenu hedd drwy'n gwlad ni.
Yn y Gogledd – i'r gwagle
rho di aur, 'run faint a'r De.

Aelod Môn sydd yn honni ei fod ef
o du cyfoethogi
y werin, a'i haelioni
ddel inni oll ddylwn ni.

Yng ngwersyll y Cynulliad – ni oeda
rhag d'wedyd ei deimlad.
1 Ieuan rhown wrandawiad;
O'i gael ef, lles fydd i'n gwlad.

Pasiodd i'sgafnu'r pwysau – a rhannu
gwerinol broblemau.
Dyrys anghyfiawnderau
a'u ham1 loes mae am leihau.

Ei rym gwresog gefnogwn – a heddiw
ein trwydded a roddwn
i roi hawl i'r arwr hwn
sefyll dros beth ddeisyfwn.

R. J. Penmorfa

Dyma dri phennill o deyrnged o'r galon, gan ferch i'w mham o'i cholli.

Calon lân a chalon dyner;
Cymorth fu i'r cryf a'r gwan
Cariad Duw a ddaw i'm nerthu –
Colled fawr i'w colli mam.

Anodd iawn fydd dilyn patrwm
Ôl ei throed hyd lwybrau byd
Ond pan ddaw cwmwl du i'm llethu
Cofiwn faint ei gwerth o hyd.

Cysgwch heno, mam, yn dawel
Dan y coed ym mhentre'r Llan,
Gwylia drosti annwyl Iesu
Nes ein tywys ni i'r lan.

Morfa Nefyn **Carol Thomas**

Bydd Robin Evans, gynt o Bencaenewydd a mab ei dad o'r Mynydd yn hoffi cael mynd i Borthdinllaen am rownd o golff. Rwy'n siŵr mai wrth edrych ymlaen am gwpaned a chwmpeini ar ddiwedd y rownd yng ngwynt y môr y canodd Robin englyn mor hyfryd o naturiol ei wead â hwn:

Pawb at y peth y bo

Er bod gwledd a chyfeddach yn yr hwyr
1 rai yn ddifyrrach;
Ni wn am ddim amgenach
Na 'rownd' yn yr awyr iach.

Robin Evans

Peth arferol, un ai fel diniwed-destun sgwrs, yn ein plith yw cwyno am y tywydd: "Ew! tydi hi ddim ffit o boeth" neu "Mae'r glaw 'ma'n ddi-ddiwedd – go damia fo" neu "Ond tydi hi'n da1 yn oer – yn ddigon i rewi llyffant'. Ond dyma gerdd o law, neu o galon un sy'n sylweddoli fod i bob tymor ei rinwedd. Mae'n gwneud i mi gofio englyn o waith bardd o Sir Fôn o'r enw barddol "Llwytryn Hwfa." Byddai Yncl Huw Penparc yn hoff o'i adrodd. Englyn campus ydi o hefyd. Os oes rhywun o'i linach ar ôl dylent fod yn falch ohono. Dyma fo:

Nid yw'r gaeau'n dragywydd – daw yr haf
Wedi'r holl ystormydd:
Deuwn a rhodiwn yn rhydd –
Yn llaw Duw mae'r holl dywydd!

Llwytryn Hwfa

Y Tymhorau

Rhowch y tymhorau i mi yn eutro,
Pob un a'i rinweddau yn harddu y fro;
Daw Hydref a'i dlysni gan arllwys y dail
Yn goch, gwyrdd a melyn ag aur bob yn ail.

Yna daw'r gaeaf â'i ias yn y gwynt,
Darogan ei ddyfod a'i chwiban ar hynt:
Y plantos yn sglefrio ar wyneb y llyn,
A'r Wyddfa fel santes yn bur yn ei gwyn.

Yn hynod ddisymwth daw'r dewin mwyn
Yn llaw y Gwanwyn i rannu ei swyn;
Yr heulwen yn gwenu a chân yn y coed
A'r fioled a'r briall mor hardd ag erioed.

Yna, yn dawel daw'r haf yn llawn hud
l orffen y darlun o baentio y byd:
Rhowch y tymhorau i mi yn eutro,
Pob un a'i rinweddau yn harddu y fro.

Nefyn **Mai o Lŷn**

Mae John Stoddart yn edrych i mewn ac o'i gwmpas. Mae'n gweld drwy rith ein hunandybiaethau a'n gwendidau. Mae fel petai yn gallu treiddio dan ein crwyn ac yn gweld ein gwendidau cudd. Nid yw'r bardd chwaith yn amddifad o weld ei ddiffygicin ef ei hunan ac yn gofidio weithiau – fel y dylai pawb ohonom: yn lle porthi ein hunan dyb.

Ar ein prawf.. .

Er i Dduw arfaethu'r ddawn o faddau'n
Wirfoddol a chyflawn;
Dwyn ein llu pechodau'n llawn
1 gof wna'r hunan gyfiawn.

John **Stoddart**

Cynildeb

Rhyw ysfa'n ein dyrysfyd – wna'r symledd
a fedd gwir gelfyddyd
yn brin, ond rhoi'r taw'n ei bryd
ar stwr oraclau'r stroclyd,

John **Stoddart**

Hen Rebal

o'r braidd, a mi'n heneiddio, na waeddwn
Yn anweddus heno
Mai cas pob edliw i'm CO'
A chasach ymbarchuso.

John Stoddart

Mae ein cyfaill yn diweddu'r seiad gydag englyn sy'n cyffwrdd ag agwedd pob un ohonom sy' weithiau yn arafu ac yn cofio'r gair.. .

"Canys, p a n ddêl yr ychydig flynyddoedd.. ."

Cydheneiddio

Drwy grinddail ein dadfeilio, a nodwydd
ein hadwedd yn pigo,
daw'r nos ag eos i go'
a'i chân yn dristach heno.

Johu Stoddart

Ni allwn lai na sylwi fod gwyddor y cynganeddion yn ymguddio'n rhwydd yng ngwaith y bardd hwn nes ei fod yn gallu 'siarad' yn rhugl ac yn rhydd yn y mesurau caeth.

Mae Dyfed Evans wedi canu y tro hwn ar thema y canwyd arno o'r blaen lawer tro. Ond nid bob tro y llwyddwyd i ganu telyneg ddilys arno. Er na chaf ddiolch gan y prydydd hwn a adwyn yn weddol dda am ddeud hyn: mae hon yn delyneg riniol. Ei rhin pennaf yw ei bod yn hollol rydd oddiwrth yr hen driciau emosiynol a ffug. Sylwer ar yr awgrymedd cynnil yn y llinell rhwng cromfachau hon:

"(Ni wn sawl blwyddyn sy,)"

a chynildeb hiraethus yr ail Penni11

a hon

"Ond ledu wnaethai'r rhiciau
Yn anniffiniol lên"

Mi wn na chaiff eich mymryn golygydd ddiolch yr awdur am 'ddeud fy neud' ond mynnaf yr hawl i'w ddeud – yn anorfod. Hwyrach y gallai'r awdur newid rhywfaint ar y cwpled clo – nid am fod unrhyw nam arno ond gallasai fod rhywfaint yn fwy newydd. Pleser a braint yw cael cyhoeddi cerdd fel yr uchod.

Ymweliad

Ar fore mwyn o Wanwyn
(Ni wn sawl blwyddyn sy,)
Fe dorrais i fy enw
Ar onnen wrth y tŷ.

Llythrennau main blaen cyllell
Ydoedd yr W. a'r 0.
A'r dyddiad oddi tanynt
Yn gam – ar hanner tro.

Ddoe ar fy sgowt i'r henfro
Mi oedais wrth 'rhen dŷ
1 weld yr enw eto
A chofio'r dyddiau fu.

Ond lledu wnaethai'r rhiciau
Yn anniffiniol lên,
A gwelais fod yr onnen
Hefyd yn mynd yn hen.

Dyfed Evans

Cawn egwyl fis Awst i fwynhau y gwyliau a gwylio, ac ail gnoi danteithion yr Eisteddfod. Os caiff ambell un (bwcs, chwedl pobol Sir Fôn) o gamdreuliad, gobeithio y daw rhywun caredig a philsen o Reni inni er hynny! Biti na fyddai modd cael rhyw Reni rhiniol at gamdreigliadau y "sêr" cyfryngol ac yn wir at wrthuni cam-dreigiol y 'Cynullwyr'. Cofiwch am rifyn Medi o'r Llanw – Lôn Las ar 740 289.

Clwb Pêl-droed Pwllheli Tymor 1999-2000

Braf yw medru adrodd ar ddiwedd tymor arall fod Clwb Pêl-droed Pwllheli wedi llwyddo i adeiladu unwaith eto ar y sylfaen a osodwyd dros y tymhorau diwethaf. Y rheswm sydd yn gwneud hyn yn bleser i'w adrodd yw fod y llwyddiant yma i'w weld trwy'r timau i gyd. Enillodd y tîm dan 13 bob tlws oedd ar gael yn eu hoedran; roedd y tîm dan 15 yn bencampwyr eu cynghrair ac fe gyrhaeddodd y tîm dan 18 rownd go-gyn-derfynol Cymru gyfan – tipyn gamp i glwb bychan o ardal Wledig fel Pwllheli.

Mae'r ail dîm, sydd yn cael ei reoli gan Gareth (Cacen) Jones a Mark Evans, hefyd wedi cymryd camau sylweddol ymlaen y tymor yma. Mae'r tîm hwn yn allweddol yn strwythr y Clwb er mwyn datblygu chwaraewyr ifanc, ac fe ddangoswyd bod llawer ohonynt yn cael cyfle i wella eu gem drwy chwarae yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch. Mae llawer o dîm llynedd eisoes yn ennill eu lle yn y tîm cyntaf ac mae cyfartaledd oed tîm cyntaf Pwllheli yn llawer is na gweddill timau Cynghrair Gwynedd. Mae'n ymddangos yn debygol iawn y bydd ambell un arall yn ymuno â nhw yn fuan.

Ar y lefel uchaf dan ofalaeth y drindod rheoli, sef Merfyn Griffith, Bryn Roberts a Dylan Jones, enillodd tîm Pwllheli ddwy gystadleuaeth, sef Tarian Eryri a Chwpan Gwynedd. Yn rownd derfynol Tarian Eryri curwyd Amaturiaid y Blaenau o 3-2 ac fe ddaliwyd gafael ar Gwpan Gwynedd am yr ail dymor yn olynol trwy guro Deiniolen ar giciau o'r smotyn wedi i'r gem orffen yn ddi-sgôr ar ôl amser ychwanegol. Roedd y ffaith ei bod wedi gorffen yn ddi-sgôr yn rhyfeddol gan i Bwllheli daro'r trawst neu'r postyn bedair gwaith a chael nifer o gyfleon eraill i ennill y gem. Wrth lwc, nerfau hogia Pwllheli oedd gadarnaf ac fe sgoriodd Pwllheli y ciciau o'r smotyn gyda Deiniolen yn taro'r trawst ddwywaith gyda'r ciciau oedd yn cyfrif.

Dros y pum tymor diwethaf mae Pwllheli wedi cyrraedd wyth rownd derfynol ac wedi curo chwech ohonynt. Record well nac unrhyw dîm arall yng Ngwynedd. Er fod Pwllheli yn feistri ar y cystadlaethau cwpan yn anffodus nid yw'r tîm yn cyrraedd eu llawn botensial yng Nghynghrair Gwynedd. Gartref ar y 'Rec' maent yn curo mwy neu lai pob gem ond mae'r perfformiedau oddi cartref wedi bod yn siomedig. Mae'r rheolwyr wedi datgan eisoes mai ennill Cynghrair Gwynedd yw'r targed ar gyfer y tymor nesaf a gobeithiwn yn fawr y bydd y chwaraewyr yn ymateb i'r her yma. Mae eu perfformiadau yn y cwpannau ac yn erbyn timau o gynghreiriau uwch yn dangos fod y gallu yna. Gobeithiwn y byddant yn cyrraedd eu llawn botensial.

Yn y noson wobrwyo ar ddiwedd y tymor cafodd y chwaraewyr canlynol eu cydnabod am eu cyfraniad dros y tymor:

Cyfraniad i'r Clwb dros y tymor Steven Barry Williams;

Ail Dîm: Chwaraewr y Fiwyddyn - Nicky Williams;
Chwaraewr y Chwaraewyr - Mark Williams;

Tim Cyntaf: Chwaraewr y Flwyddyn - Peter Griffith;
Chwaraewr y Chwaraewyr - Paul Williams;
Prif Sgoriwr - Peter Griffith (35 gôl.

Llongyfarchiadau iddynt oll ond mae un ohonynt yn haeddu sylw arbennig. Deunaw oed yw Peter Griffith ac yn chwarae ei dymor llawn cyntaf i'r prif dîm. Wedi i Dafydd Jones ymuno â Nefyn roedd Pwllheli yn chwilio am sgoriwr ac fe lwyddodd Peter i lenwi'r bwlch yn benigamp. Yn ogystal ac ennill tlysau y Clwb enillodd Peter dlws Cynghrair Gwynedd ar gyfer Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn ac roedd o fewn un gôl i ennill tlws prif sgoriwr y Cynghrair hefyd. Llongyfarchiadau mawr iddo a gobeithiwn y bydd ei gyfraniad i dîm Pwllheli yn parhau yn y blynyddoedd nesaf.

Mae Euro 2000 wedi golygu na fu raid i ni fod heb bêl-droed i'n diddanu dros yr haf a'r newyddion da yw mai dim ond ychydig wythnosau sydd tan y bydd y tymor nesaf yn dechrau. Gobeithiwrn am weld y llwyddiant yn parhau i Glwb Pêl-droed Pwllhei.

Clwb Hwylio Pwllheli

Fwrw'r Sul, 16-18 Mehefin, cynhaliwyd Rasus Hwylio y Penwythnos Celtaidd yng Nghlwb Hwylio Pwllheli.

Daeth 43 o gychod ynghyd o wahanol glybiau hwylio yng ngogledd Cymru a Lloegr. Fe'u rhannwyd yn bedwar dosbarth gyda'r bwriad o gynnal chwe ras yn ystod y penwythnos. Yn anffodus, er i ni gael haul tanbaid cafwyd gwyntoedd ysgafn iawn neu ddim gwynt o gwbl ar y diwrnod cyntaf a'r olaf. Tair ras yn unig a lwyddwyd i'w cynnal er i'r cychod fod allan ar y dŵr trwy gydol yr amser yn aros am wynt.

Canlyniadau'r pedwar dosbarth oedd fel a ganlyn:

Sianel
1. Megalopolis (C.G. Cowper);
2. Tamur (N.J. Thistleson);
3. Converting Machine (D. Cummaford).

P.Y.S. 1
1. Juno (W. Hatton);
2. Get Knotted (C.D. Brereton);
3. Quicksilver (P. Yapp / S. Tudor).

P.Y.S. 2
1. Shoestrings (C.J. Machie);
2. Jasper o Lŷn (G. Hughes Jones / Dyddgu Williams);
3. Steady Aim (M. Broad).

SBR
1. Queen of the Slipstream (D a J Fawcett);
2. Quango (Wells, Sparrow, Banthorpe);
3. Bullrush (M. Houlbrooke).

Bu'n achlysur llwyddiannus iawn gydag adloniant wedi ei drefnu gyda'r nos. Clywsom am un digwyddiad anffodus ar y dŵr pan aeth cwch lleol i wrthdrawiad â chwch arall wrth fynd o gwmpas y marc. Ni ellir cyfeirio bai at neb yn arbennig ond, i'r rhai hynny sydd â diddordeb, mae modd gweld rhai o'r darnau toredig mewn gweithdy ym Mhenrallt.

Ar Orffennaf 1 cynhelir y ras flynyddol o Bwllheli i Borthdinllaen, yn cychwyn am 11 .OO y bore. Bydd y cychod yn aros yno dros nos a dychwelyd wrth eu pwysau drannoeth.

Ar Orffennaf 15 cynhelir ras hir arall, o Bwllheli i Aberystwyth, gyda mordaith hamddenol yn digwydd yr un pryd.

Ar Orffennaf 29 mae Regata Flynyddol Pwllheli i'w chynnal, gyda Dawns y noson honno.

Mae'r trefniant i roi cyfle i aelodau newydd neu ddarpar aelodau ddysgu hwylio cychod bach yn parhau bob nos Wener. Dyma'ch cyfle i ddechrau hwylio o ddifrif.

Mae tîm Rygbi'r Ddraig Ysgol Llidiardau wedi derbyn crysau newydd trwy garedigrwydd Cwmni Bysus Nefyn. Yn y llun hefo'r plant a'r Brifathrawes, Mrs Rhian Williams, mae Robin Jones o'r cwmni yn cyflwyno'r crysau Llun: Dewi Wyn

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Tudweiliog a ddaeth yn ail yn y Gystadleuaeth Pêl-droed pump-bob-ochr ysgolion dalgylch Botwnnog.
Llun: Dewi Wyn

Mae mabolgampwyr o fri yn Ysgol Pont-y-gôf. Hwy enillodd fabolgampau ysgolion cynradd dalgylch Botwnnog. Llun: Dewi Wyn

Cymraeg, Saesneg, Cymsneg, Bratiaith - *pa un?*

Geraint y tu allan i Lys Caernarfon, 8 Medi 1999

Beth, mewn difrif calon, sy'n cymell Cymry 'parchus' can01 oed a hŷn i wrthod talu am drwydded teledu a radio ac ymddangos gerbron meinciau ynadon i wynebu dirwyon a chostau trymion ac efallai garchar? Dagrau pethau yn y Gymru sydd ohoni ydi fod nifer cynyddol o bob1 wedi cael hen lond bol ar Seisnigrwydd a safon rhaglenni, ac yn arbennig safon iaith radio a theledu Cymraeg.

Sefydlwyd S4C bron i ugain mlynedd yn ôl yn dilyn brwydr genedlaethol gostus i gannoedd o Gymry twymgalon. Cafwyd deddf, Deddf Darlledu 1980, yn sefydlu sianel i Gymru a fyddai'n darlledu rhaglenni Cymraeg ar oriau brig. Gorchymyn y ddeddf hon oedd – ac ydi – fod y sianel yn darparu rhaglenni Cymraeg, ie, **RHAGLENNI CYMRAEG!** ! Nid rhaglenni Saesneg, nid rhaglenni dwyieithog, nid rhaglenni mewn bratiaith, nid rhaglenni Cymsneg neu Wenglish, nid rhaglenni'n cynnwys talpiau helaeth o Saesneg, ond rhaglenni Cymraeg. Mae gorchymyn o'r fath yn gyson â gorchmynion statudol cyffelyb drwy ho11 wledydd gwâr y byd. Y cyfan a olyga ydi fod y Gymraeg ar S4C (a Radio Cymru o ran hynny) yn cael yr un parch a'r un safle â'r Ffrangeg yn Ffrainc, y Sbaeneg yn Sbaen, y Gatalaneg yng Nghatalwnia a'r Saesneg yn Lloegr. Och fi!

Ydach chi wedi gwrando ar Radio Cymru yn ddiweddar? Ydach chi wedi cael eich gorfodi i wrando ar y nail1 record Saesneg ar ôl y llall? Ydach chi wedi'ch diflasu, yn ogystal a theimlo'n gwbl rwystredig, ynglyn â safon wamal a disylwedd y rhaglenni? Ydach chi wedi syrffedu ar gael eich trin fel sombis?

"Mae BBC Cymru yn gwbl fodlon gyda safon a chywirdeb iaith a chynnwys ei chynnyrch," meddai Aled Glynne Davies, un o benaethiaid Radio Cymru. Yr un modd S4C. Ai Cymraeg ydi iaith i-dot a Pam fi Duw? Fyddwch chi'n cordeddu wrth wylio Heno? Ydi cyfweliadau Saesneg a chaneuon Saesneg at eich dant? Ydi cynnwys y cyfryw bethau mewn rhaglenni Cymraeg yn anhepgorol? Onid ydi'r saw1 sy'n gyfrifol yn euog o anwybyddu gofynion Deddf Darlledu 1980 a'i gorchymyn diamwys i **ddarparu rhaglenni Cymraeg?** Onid penaethiaid S4C a Radio Cymru ddylai fod yn ymddangos gerbron ynadon am y torcyfraith hwn?

Mewn gair, mae yna filoedd lawer o Gymry bellach wedi cael hen ddigon ar Seisnigrwydd cynyddol y cyfryngau Cymraeg. Maent bellach yn cefnu ar yr union sianel a gostiodd mor ddrud iddynt. Mae lle i ofni, wyddoch chi, bod y Seisnigo hwn yn gwbl fwriadol. Mae'n sicr o fod yn haerllug a thrahaus.

Ein dad1 ni ydi bod y Gymraeg yn fwy na thebol i gyfleu bywyd yn ei gyflawnder a'i grynswth a bod y gwasanaeth Seisnigedig presennol yn fygythiad gwirioneddol i safle'r Gymraeg. Galwn am gydnabod y Gymraeg yn iaith darlledu ystwyth a chyfoes trwy ehangu meysydd ei defnydd. Galwn am greu polisi iaith cadarn ar gyfer S4C a Radio Cymru – polisi, nid 'canllawiau' mympwyol a bwriadol anelwig – polisi iaith a fydd yn sicrhau defnyddio'r Gymraeg ar gyfer pob swyddogaeth, gydag urddas apharch.

Rhaid sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn ddealladwy ac yn gywir. Rhaid ymorol bod y Gymraeg yn rhywbeth amgenach na "iaith carreg fy aelwyd, iaith carreg fy medd" (sob.. sob.. .). Dyna pam bod cynifer o bob1 drwy Gymru benbaladr yn credu mor gryf yn y frwydr hon. Rhaid torri'r efrau a dyfrhau'r gwenith. Rhaid gwrthod arlwy eilradd, arlwy Seisnigedig, arlwy a olgya yn y pen draw *(ar ddiwedd y dydd* yn ôl iaith y BBC!) dranc yr iaith Gymraeg. Mae bellach mor amlwg â haul canol dydd mai maniffesto S4C a Radio Cymru ydi'r un mwyaf gwrthun ac anghynnes yn Ewrob gyfan. Dyma fo:

"Wele, mi a'u bwydaf hwynt, y bob1 hyn, a wermod, ac a'u diodaf hwynt a dwfr bustl."

Serch hynny, o gofio natur eu harlwyon, go brin fod yr un ohonyn nhw'n gyfarwydd â geiriau proffwydi o'r fath.

Geraint Jones

DEUD ein DEUD

Tybed beth ydy barn pobol Llŷn am raglenni S4C a Radio Cymru? Oes 'na ormod o Saesneg arnyn 'nhw? Ydy'r Gymraeg o safon derbyniol? Rhian Jones o Efailnewydd a fu'n holi ar ran y Llanw:

'Swn i'n licio tasa gin i'r 'gyts' i 'neud yr un peth.

Dydi Lowri Richards o Sarn ddim yn un i falu awyr. "Mae gan Dei Tomos, Hywel Gwynfryn a Nia Roberts Gymraeg da iawn, ond dydi'r safon ddim cystal ar S4C. Cymrwch chi raglen fel 'Heno', sy'n cael ei darlledu ar adeg sydd wedi ei neilltuo ar gyfer rhaglenni Cymraeg. Pam bod angen cael pobol i ganu yn Saesneg ar y rhaglen? Mae 'na ddigon o bobol sy'n gallu canu yn Gymraeg. Rydan ni'n haeddu gwell na hyn." Mae Lowri'n edmygu pobol fel Meredydd Evans sy'n barod i sefyll dros yr hyn y maen nhw'n ei gredu. "Dw i'n eu hedmygu nhw'n fawr iawn - 'swn i'n licio tasa gin i'r 'gyts' i 'neud yr un peth."

Syniadau tebyg oedd gan Silyn Roberts o Efailnewydd. Mae'n casau rhaglenni fel 'Heno' sydd â chymaint o eitemau Saesneg diangen arnynt. Mae o hefyd yn teimlo nad ydi cyllideb y sianel yn cael ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. "Mae 'na ormod o arian yn cael ei sianelu i un cyfeiriad, i wneud ffilm Nadolig er enghraifft, nes bod y rhaglenni eraill yn gorfod bod yn rhaglenni rhad a diflas. 'Dan ni angen mwy o raglenni da ar gyfer pobol ifainc a rhaglenni dogfen fel y rhai Saesneg sydd ar y teledu digidol efo lluniau da o fyd natur."

. ..dim byd ond ffarmwrs yn cwyno a chynghorwyr yn malu ca-awyr!

Dydi Sulwen, chwaer yng nghyfraith Silyn, ddim yn cytuno efo'i farn o ynglŷn â'r rhaglen 'Heno'. "Mae 'na ormod o eitemau Saesneg, oes," meddai Sulwen, "ond dw i'n licio'r syniad o raglen sy'n llawn pytiau byr amrywiol. Efo rhaglen fel 'Heno' does dim rhaid i chi ei gwylio hi o'r dechrau i'r diwedd – fedrwch chi droi i wrando os oes yna rywbeth sy'n apelio atach chi a chario 'mlaen efo be bynnag ydachchi'n ei wneud wedyn." Reit, cyn iddi fynd yn ffrae, be dach chi'n ei feddwl o Radio Cymru ta? "Rybish!" meddai'r ddau. "Mae isio sgrapio Jonsi a Stondin Sulwyn' – dim byd ond hen ferched yn tynnu ar Jonsi, ffarmwrs yn cwyno a chynghorwyr yn malu ca-awyr!"